# YMWELIADAU Â SAFLEOEDD CYNLLUNIO

## Adroddiad ar y cyfarfod a gynhaliwyd ar 22 Awst 2012

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Y Cynghorydd Jim Evans (Cadeirydd Dros Dro);<br><br>Y Cynghorwyr Richard A Dew; Kenneth P. Hughes, Eric Roberts; Hefin Thomas; |
| **WRTH LAW**: | Arweinydd Tîm Rheoli Datblygu (DPJ)(Safle 2 & 3)<br>Swyddog Tirwedd a Choed (EH) (Safle 2 & 3)<br>Swyddog Cynllunio (CR) (Safle 1)<br>Swyddog Priffyrdd (JR) (Safle 1)<br>Swyddog Pwyllgor (MEH) |
| **YMDDIHEURIADAU**: | Y Cynghorwyr E. G. Davies, Lewis Davies, W. T. Hughes, C. McGregor, R. L. Owen. |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Aelodau Lleol - Y Cynghorydd Eric Jones (Safle 1)<br>Y Cynghorydd Aled M. Jones (Safle 2) |

---

Draft

**1 33C289B – CAIS LLAWN I DDYMCHWEL YR ANNEDD A'R GAREJ, CODI PEDAIR ANNEDD ANNIBYNNOL DEULAWR A GWAITH ALTRO AR Y FYNEDFA I GERBYDAU YN TY NEWYDD, PENTRE BERW**

Nododd y Swyddog Cynllunio bod caniatâd cynllunio amlinellol wedi ei gymeradwyo ar 5 Hydref 2011 ar gyfer 3 annedd ar y safle hwn.

Dywedodd yr Aelod Lleol ei fod yn parhau i fod yn bryderus iawn mewn perthynas â'r ffordd i'r anheddau hyn. Dywedodd mai lôn bengaead ydyw ac nad oes unrhyw le pasio ac eithrio ar dir eiddo eraill. Mae pryderon ynghylch materion hawliau tramwy. Dywedodd ei fod yn credu bod cofnodion cyfarfod mis Hydref diwethaf yn anghywir yn ei farn ef. Dywedodd y Swyddog Priffyrdd bod y datblygwr wedi dweud ei fod yn fodlon lledu'r lôn ger y safle i 5.1m, sy'n cwrdd â gofynion ar gyfer lleoedd pasio. Ar hyn o bryd mae'r lôn yn 4m o led.

Dywedodd Aelodau'r Pwyllgor y dylai cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 5 Hydref 2011 fod ynghlwm wrth yr adroddiad ar gyfer y cyfarfod nesaf o'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion a gynhelir ar 5 Medi 2012.

**2 44C292 – CODI UN TYRBIN GWYNT HYD AT 72M I BEN UCHAF Y LLAFN A CHODI GORSAF TRAWSNEWIDYDD AC ADEILAD I GADW OFFER , TRAC MYNEDIAD NEWYDD A LLECYN CALED YNGHYD Â CHREU FFORDD GYSWLLT NEWYDD GER Y GYFFORDD GYDA'R B5111 AR P.S.0268/6366, AR DIR SY'N GYSYLLTIEDIG Â LLETY, RHOSYBOL**

Eglurwyd y cynigon yn llawn i'r aelodau gan y Swyddogion. Esboniwyd y byddai'r tyrbin arfaethedig yn 72m i ben uchaf y llafn pan fo'n fertigol.

Dangoswyd i'r aelodau leoliad yr anheddau preswyl agosaf.

Dangoswyd ffotogyfosodiadau yn dangos lleoliad arfaethedig y tyrbin gwynt o wahanol gyfeiriadau. Rhoddwyd cyfle i Aelodau'r Pwyllgor hefyd weld y safle o wahanol gyfeiriadau drostynt eu hunain.

Dywedodd yr Aelod Lleol fod ganddo ddiddordeb personol yn y cais hwn. Dywedodd ei fod, ar ôl cael trafodaeth gyda'r Swyddog Monitro, wedi cael cyfle i fynegi ei farn mewn perthynas â'r cais arfaethedig. Dywedodd fod eiddo yn agos i'r safle hwn ac y byddai uchder y tyrbin o 72m i ben y llafn yn cael effaith andwyol ar yr ardal.

(Roedd trigolion lleol ar y safle yn ystod trafodaethau'r Aelodau.  Ni chaniatawyd iddynt wneud unrhyw sylwadau mewn perthynas â'r cais).

**3 CODI TYRBIN GWYNT HYD AT 72M I BEN UCHAF Y LLAFN YNGHYD Â CHODI GORSAF TRAWSNEWIDYDD AC ADEILAD I GADW OFFER, YNGHYD Â THRAC MYNEDIAD NEWYDD A LLECYN CALED AR DIR YN TAI HEN, RHOSGOCH**

*Roedd yr Aelod Lleol, y Cynghorydd  W. T. Hughes wedi gwneud datganiad o ddiddordeb yn y cais hwn ac nid oedd yn bresennol ar y safle.*

Esboniodd y Swyddogion y cynigion yn llawn i'r Aelodau.  Eglurwyd bod uchder y tyrbin wedi ei ostwng o 100m i 72m i ben y llafn.

Gan gyfeirio at y cynllun,  dangoswyd i'r Aelodau leoliad yr eiddo preswyl cyfagos ynghyd â lleoliad yr eiddo yn Tyn y Gors.

Dangoswyd i'r Aelodau ffotogyfosodiadau yn dangos lleoliad arfaethedig y tyrbin gwynt o wahanol gyfeiriadau.  Cafodd Aelodau'r Pwyllgor hefyd gyfle i weld y safle o wahanol leoedd yn yr ardal.  Cafwyd cyfle hefyd i weld y safle o Westy'r Gadlys sy'n agos i AHNE.  Mae'r safle o fewn 1.2km i'r AHNE.

Draft

**Y CYNGHORYDD JIM EVANS**

**CADEIRYDD DROS DRO**